
IS-DDEDDFAU MODEL – SET 8

[Enw'r Cyngor]

IS-DDEDDFAU AR GYFER RHEOLI DA A LLYWODRAETH

TREFN YR IS-DDEDDFAU

1. Dehongli Cyffredinol
2. [Cymhwyso]
3. [Cymhwyso]
4. [Cymhwyso]
5. Marchogaeth ar ymylon ffyrdd a lleiniau ymyl
6. Cerbydau ar ymylon ffyrdd a lleiniau ymyl
7. Sglefrfyrrddio [defnyddio byrddau sgrialu] etc [- gwahardd sglefrfyrrddio [defnyddio byrddau sgrialu] mewn mannau dynodedig]
8. Sglefrfyrrddio [defnyddio byrddau sgrialu] etc [- gwahardd sglefrfyrrddio [defnyddio byrddau sgrialu] yn beryglus neu rhag bod yn niwsans ar lwybrau troed ac ar ffyrdd]
9. Atyniadau ffair yn peri rhwystr i draffig
10. Chwaraeon peryglus ger priffyrdd
11. Chwarae gemau ar briffyrdd gan aflonyddu ar bobl sy'n byw gerllaw
12. Towntio
13. Gwneud dŵr [piso], etc
14. Ymyrryd â chyfarpar rhybuddion ffordd
15. Ymyrryd ag offer achub bywyd
16. Dringo ar bontydd a hongian oddi arnynt
17. Y Gosb
18. Dirymu

ATODLEN [1]

ATODLEN [2]

Is-ddeddfau wedi eu gwneud o dan adran 2 o Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 gan [rhowch enw'r Cyngor] ar gyfer rheoli da a llywodraeth [enw'r Cyngor /man o dan awdurdod y cyngor] ac ar gyfer atal a dileu niwsans.

Dehongli cyffredinol

1. Yn yr is-ddeddfau hyn:

Peidiwch â dewis termau o'r rhestr hon os na fydd y termau yn cael eu defnyddio yn yr is-ddeddfau model y mae'r Cyngor yn bwriadu eu mabwysiadu:

ystyr “cefnffordd” yw priffordd, neu briffordd arfaethedig, sy'n gefnffordd yn rhinwedd adran 10(1) neu adran 19 o Ddeddf Priffyrdd 1980 neu yn rhinwedd gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan adran 10 o'r Ddeddf honno;

ystyr “cerbyd sy'n cael ei yrru â'i bŵer ei hun” yw cerbyd heblaw beic, cadair olwyn neu bram sy'n cael ei yrru gan bwysau neu bŵer un neu ragor o bobl yn sgleftio, sleidio neu'n reidio ar y cerbyd neu gan un neu ragor o bobl eraill yn tynnu neu'n gwthio'r cerbyd;

ystyr “cerbyttffordd” yw ffordd sy'n ffurfio priffordd neu'n cynnwys priffordd, sy'n ffordd (heblaw trac beiciau) y mae gan y cyhoedd hawl dramwy drosti drwy fynd â cherbydau ar ei hyd;

ystyr “y Cyngor” yw [rhowch enw'r Cyngor];

ystyr “mannau dynodedig” yw'r manau sy'n cael eu dynodi yn [is-ddeddf 3/is-ddeddf 4(3)] i'r is-ddeddfau hyn;

ystyr “priffordd” yw priffordd gyfan neu ran o briffordd heblaw fferi neu ddyfrffordd;

ystyr “troetffordd” yw ffordd sy'n rhan o briffordd sydd hefyd yn cynnwys cerbyttffordd, sy'n ffordd y mae gan y cyhoedd hawl dramwy ar droed yn unig drosti;

ystyr “ymyl ffordd neu lain ymyl” yw—

- (a) tir sy'n gyfagos i gerbyttffordd priffordd [neu rhwng dwy gerbyttffordd i briffordd], heblaw cerbyttffordd cefnffordd a gafodd ei breinio yng Ngweinidogion Cymru; a
- (b) tir a gafodd ei osod neu ei hau â phorfa neu ei blannu â choed, llwyni neu blanhigion, ac sy'n cael ei dorri neu ei gynnal fel arall yn addurn gan y Cyngor.

Cymhwyso

Dylai cyngorau fabwysiadu UN o'r is-ddeddfau model 2, 3 a 4

2. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys ledled [*rhowch enw'r cyngor/ man o dan awdurdod y cyngor*].
3. Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys i'r manau [*rhowch enw'r man o dan awdurdod y cyngor*] sy'n cael eu dynodi yn [*yr Atodlen*] [*Atodlen 1*] [*ac sy'n cael eu hamlinellu gan linellau rhesog du ar y plan sydd ynghlwm wrth yr is-ddeddfau hyn*].
4. (1) Mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys ledled y [*rhowch enw'r cyngor/ man o dan awdurdod y cyngor*] heblaw fel sy'n cael ei nodi yn is-ddeddfau [4(2) i 4(4)].
 - (2) Mae is-ddeddfau 5 a 6 yn gymwys i unrhyw ymyl ffordd neu lain ymyl y mae hysbysiad yn dangos eu bod yn ymyl ffordd neu'n llain ymyl y mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys iddynt, a'r hysbysiad hwnnw yn cael ei roi yn amlwg gerllaw ymyl y ffordd honno neu'r llain ymyl honno.
 - (3) Mae is-ddeddf 7 yn gymwys i'r manau [*rhowch enw'r man o dan awdurdod y cyngor*] sy'n cael eu dynodi yn [*yr Atodlen*] [*Atodlen 1*] [*sy'n cael eu dangos â llinellau rhesog ar y plan sydd ynghlwm wrth yr is-ddeddfau hyn*].
 - (4) Mae is-ddeddf 16 yn gymwys i bontydd sy'n cael eu rhestru yn Atodlen [2].

Marchogaeth ar ymylon ffyrdd a lleiniau ymyl

5. Ni chaiff neb heb awdurdod cyfreithlon farchogaeth neu dywys unrhyw geffyl, nac achosi i unrhyw geffyl gael ei farchogaeth neu ei dywys ar unrhyw ymyl ffordd neu lain ymyl y mae'r is-ddeddf hon yn gymwys iddynt.

Cerbydau ar ymylon ffyrdd a lleiniau ymyl

6. (1) Ni chaiff neb heb awdurdod cyfreithlon ddreifio, parcio neu adael cerbyd nac achosi i unrhyw gerbyd gael ei ddreifio, ei barcio neu ei adael ar unrhyw ymyl ffordd neu lain ymyl y mae'r is-ddeddf hon yn gymwys iddynt.
 - (2) Nid yw'r is-ddeddf hon yn gymwys i gerbyd masnachol trwm fel sy'n cael ei ddiffinio gan adran 20 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988.

Sglefrfyrrdio [defnyddio byrddau sgrialu] etc

Gwahardd sglefrfyrrdio [defnyddio byrddau sgrialu] mewn manau dynodedig [gydag arbedion ar gyfer hawliau tirfeddianwyr preifat]

7. Ni chaiff neb sglefrio, sleidio neu reidio ar sglefrolwyr, sglefrfyrrddau [byrddau sgrialu] neu gerbydau eraill sy'n cael eu gyrru â'u pŵer eu hunain yn y manau dynodedig [*heblaw pan fydd ganddynt ganiatâd perchennog y tir i wneud hynny*].

Gwahardd sglefrfyrrddio [defnyddio byrddau sgrialu] yn beryglus neu sglefrfyrrddio [defnyddio byrddau sgrialu] mewn ffordd sy'n achosi niwsans ar droetffyrdd a cherbyffyrdd [rhowch y geiriau mewn bachau petryal os ydych hefyd yn mabwysiadu is-ddeddf model 7]

8. *[Y tu allan i'r manau dynodedig,]* Ni chaiff neb sglefrio, sleidio neu reidio ar sglefrolwyr, sglefrfyrrddau [byrddau sgrialu] neu gerbydau eraill sy'n cael eu gyrru â'u pŵer eu hunain mewn ffordd sy'n achosi perygl neu'n rhoi sail resymol i bobl eraill sy'n defnyddio'r droetffordd neu'r gerbyffordd honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arnynt.

Atyniadau ffair yn peri rhwystr i draffig

9. (1) Ni chaiff neb weithredu atyniad ffair—
- (a) mewn unrhyw fan cyhoeddus; nac
- (b) ar unrhyw dir sy'n gyfagos i stryd neu fan cyhoeddus,
- mewn ffordd sy'n achosi rhwystr neu berygl i'r traffig sydd yn y stryd honno neu'r man cyhoeddus hwnnw.
- (2) ystyr "atyniad ffair" yw galeri saethu, siglen-fyrddio, rowndabowt, neu adeiladwaith arall a gafodd ei osod, ei godi neu ei weithredu yn adloniant i'r cyhoedd.

Chwaraeon peryglus ger priffyrdd

10. Ni chaiff neb chwarae pêl-droed nac unrhyw gêm arall ar dir sy'n gyfagos i briffordd mewn ffordd sy'n debygol o wneud y canlynol:
- (a) achosi rhwystr i draffig; neu
- (b) achosi perygl neu rhoi sail resymol i unrhyw un ar y briffordd honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arno..

Chwarae gemau ar briffyrdd gan aflonyddu ar bobl sy'n byw gerllaw

11. Ni chaiff neb chwarae pêl-droed nac unrhyw gêm arall ar dir sy'n gyfagos i briffordd mewn ffordd sy'n rhoi sail resymol i unrhyw unigolyn sy'n byw gerllaw allu honni bod y gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arno.

Towtio

12. Ni chaiff neb ar unrhyw stryd nac yn unrhyw fan cyhoeddus-
- (a) hysbysebu na cheisio cael cwsmeriaid i ddefnyddio unrhyw wasanaeth; na
- (b) mynd ati i gasglu gwybodaeth ar gyfer cyflenwi nwyddau neu wasanaethau,

mewn ffordd sy'n achosi rhwystr neu'n roi sail resymol i unrhyw unigolyn yn y stryd honno neu yn y man cyhoeddus hwnnw allu honni bod yn gweithgaredd hwnnw yn aflonyddu arno.

Gwneud dŵr [piso] etc

13. Ni chaiff neb wneud dŵr [biso] nac ymgarthu yn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus.

Ymyrryd â chyfarpar rhybuddion ffordd

14. Ni chaiff neb heb awdurdod cyfreithlon symud neu ymyrryd ag unrhyw lamp, gwydr coch neu gyfarpar arall sy'n cael ei ddefnyddio i roi golau neu roi rhybudd am unrhyw rwystr, tyllau neu berygl arall ar unrhyw ffordd.

Ymyrryd ag offer achub bywyd

15. Heblaw mewn achos brys, ni chaiff neb dynnu, symud o'i le neu ymyrryd fel arall ag unrhyw offer achub bywyd y mae'r Cyngor neu unrhyw awdurdod cymwys arall wedi ei roi yn unrhyw stryd neu fan cyhoeddus.

Dringo ar bontydd a hongian oddi arnynt

16. (1) Ni chaiff neb heb esgus rhesymol—

(a) dringo ar unrhyw bont y mae'r is-ddeddf hon yn gymwys iddi neu hongian oddi arni ; neu

(b) helpu, annog, cynghori neu achosi gweithred o'r fath gan rywun arall.

(2) Mae "pont" yn cynnwys unrhyw bentan, arglawdd, wal gynnal neu waith arall sy'n cynnal neu'n diogelu'r bont.

Y Gosb

17. Mae unrhyw un sy'n tramgwyddo yn erbyn yr is-ddeddfau hyn yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.

Dirymu

18. Mae'r is-ddeddfau sy'n ymwneud â [*nodwch y pwnc*] a gafodd eu gwneud gan [*rhowch yr enw*] ar [*rhowch y dyddiad*] ac a gafodd eu cadarnhau gan [*rhowch enw'r awdurdod cadarnhau*] ar [*rhowch ddyddiad y cadarnhad*] wedi eu dirymu.

ATODLEN [1]

Y manau dynodedig yw:

ATODLEN 2

Y pontydd y cyfeirir atynt yn is-ddeddf 16 yw: